

ARGRAFFU YM MHWLLHELI

gan D. G. LLOYD HUGHES

Dyma sylwedd darlith flynyddol y Gymdeithas
a draddodwyd ym Mhrifwyl Abergele

ARGRAFFWYD llyfr am y tro cyntaf ym Mhwllheli yn y flwyddyn 1828. Cyn i hynny ddigwydd mae'n werth ystyried pa anawsterau oedd awduron yr ardal yn gorfod eu hwynebu i gael llyfr mewn print. Nid mater syml o gael cerbyd i'r dref agosaf oedd hi ond, am gyfnod hir, cael llong i Lundain. Medrai'r daith honno, yn dibynnu ar y tywydd, gymryd hyd at dair wythnos.

Henry Maurice y Piwritan oedd y cyntaf i wynebu'r broblem. Tra oedd hwnnw yn offeiriad ac yn ysgolfeistr yn y dref tua chanol yr ail ganrif ar bymtheg, bu wrthi'n golygu cyfrol o farddoniaeth y Ficer Prichard o Lanymddyfri. Yn Llundain yr argraffwyd honno yn 1659.

Hanner ffordd trwy'r ganrif nesaf, yn 1746 ac yn ystod berw cynnar y Diwygiad Methodistaidd yn yr ardal, cyfansoddodd William Roberts, clochydd Llannor, ei anterliwd, *Ffrewyll y Methodistaidd*. Ar draws y tir i'r Amwythig yr aed â honno i gael ei hargraffu. Nid siwrne foethus mewn coets oedd y daith honno yng nghanol y ddeunawfed ganrif.

Yn y flwyddyn 1801, ychydig dros hanner can mlynedd yn ddiweddarach, roedd y bardd Siôn Lleyen o Bwllheli yn trefnu'r argraffiad cyntaf o'i waith barddonol. Pum mlynedd cyn hynny sefydlwyd gwasg gyntaf Caernarfon. Dim ond ugain milltir o bellter i ffwrdd, ond doedd honno ddim yn ddigon cyfleus. Ar un olwg doedd pethau wedi newid dim ar ôl cant a hanner o flynyddoedd, gan mai yn Llundain yr argraffwyd gwaith Siôn Lleyen, ond roedd ganddo gyfaill yn y ddinas honno, yr alltud enwog o Bwllheli, Thomas Roberts, Llwynhudol, i drefnu pethau drosto. Dibynnai'r ddau, yn ddiau, yn drwm ar y llongau i gynnal yr ohebiaeth rhyngddynt.

Blwyddyn yn ddiweddarach, 1802, gwasg yng Nghaerfyrddin a argraffodd y gerdd nesaf o waith Siôn Lleyen, a thros y môr, y mae'n debyg, y gwnaed y trefniadau hynny. Yn dilyn hynny dibynnodd Siôn Lleyen ar weisg yn y gogledd, ac yn Nhrefriw y cyhoeddwyd dau lyfr o farddoniaeth yn 1815. John Jones oedd yn cynnal y wasg yn y fan honno, ond un o'i gydweithwyr oedd ei frawd, Robert

Jones, a hwnnw a fu'n gyfrifol am sefydlu'r wasg gyntaf ym Mhwllheli.

Yng Nghonwy y dechreuodd Robert Jones ei yrfa fel argraffwr ar ei liwt ei hun, ond symudodd i Bwllheli tua 1828. Mae'n werth ystyried pa beth a'i cymhellodd i symud oblegid wrth wneud hynny fe ddatguddir ychydig am natur y fasnach mewn tref gymharol fechan yn ystod hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf.

Sylweddolodd Robert Jones, ar ôl symud i Gonwy, nad oedd cynnal ei wasg ei hun yn fêl i gyd. Dysgodd, fel llawer iawn o fân argraffwyr Cymru, na allai gynhyrchu ar gyfartaledd lawer mwy na thua un llyfr y flwyddyn, ac ni chadwai hynny'r blaidd o'r drws. Roedd angen cymaint ag y gallai ei gael o waith argraffu arall arno. Argraffwyd pethau fel baledi a phosteri, ond edrychwyd hefyd am waith fel rhybuddion cyfreithiol a gorchmynion gweinyddol o bob math. Mae'n debyg y cadwai argraffwr siop, i werthu llyfrau, pob math o bapur, nid yn unig bapur ysgrifennu ond papur i addurno muriau tai hefyd, ac inc, penseli, pâst a glud. Rhyw grafu bywoliaeth a wnaï argraffwr gyda'r holl amrywiaeth yna, ond os medrai gael swydd ar wahân gallasai fod ar ben ei ddigon. Yn ffodus iawn roedd swydd felly i'w chael ym Mhwllheli.

Roedd tipyn o fwrwm yn nhre Pwllheli erbyn yr 1820au. Enillwyd llawer o dir o grafangau'r môr, a dynion ieuainc, o natur fentrus, yn brysur yn y lle. Y mwyaf blaenllaw ohonynt oedd y cyfreithiwr David Williams, gwŵr a oedd am ddod yn dra enwog ddeugain mlynedd yn ddiweddarach fel y Rhyddfrydwr cyntaf i drechu'r Toriaid i ennill sedd aelod seneddol sir Feirionnydd. Gwelodd David Williams ogoniant y llecion sydd erbyn hyn wedi dod yn adnabyddus fel Porthmeirion cyn bod sôn am y pensaer Clough Williams Ellis. Symudodd yno i fyw, i dŷ — Bron Eryri — yn 1841 a newidiodd yr enw i Castell Deudraeth ar ôl gwario arian arno a'i droi'n gastello.

Rhan o waith David Williams oedd bod yn ddirprwy siryf sir Gaernarfon, y math o swydd a chwenychai ar y pryd oherwydd y perthynai iddi llawer o ddyletswyddau cyhoeddus,

swydd a agorasai bob math o ddrysau iddo. Cyflogai ddyd, y Sheriff's Officer, i wneud llawer o'r mân-waith drosto ac y mae *Pigot's Directory*, 1828-9, yn dangos mai Robert Jones, argraffwr, oedd yn dal y swydd honno. Er mwyn sicrhau swydd y Sheriff's Officer y symudodd Robert Jones i Bwllheli. Sut ddaeth David Williams a Robert Jones i gysylltiad â'i gilydd nid yw'n glir ond mi fuasai David Williams, gyda'i ddi-ddordeb ysol mewn codi statws y dref, wedi gweld y fantais o ddenu argraffwr i weithio yno.

Y wasg gyntaf a ddefnyddiodd Robert Jones ym Mhwllheli oedd yr hen wasg bren a brynwyd yn

Nulyn tuag 1732 gan Lewis Morris. Arni hi, yn Sir Fôn, yr argraffwyd y rhifyn cyntaf, yr unig rifyn, o'r cylchgrawn Cymraeg cyntaf, *Tlysau yr Hen Oesoedd*. Prynwyd y wasg bren gan ei daid, Dafydd Jones, a'i symud i Drefriw, ac yng nghwrs amser aeth y wasg i ganlyn Robert Jones i Bwllheli.

Argraffodd Robert Jones naw o lyfrau ym Mhwllheli, saith ohonynt ar y wasg bren a dwy ar wasg Albion haearn a sicrhawyd ganddo yn 1832; pob un yn y categori moes a chrefydd. Cynnrych gwahanol iawn i'w gynnyrch yng Nghonwy. Yno, argraffodd lyfr ar hanes llofruddiaeth, catalog o lyfrau ar werth o

634

CAETHIWED YN CAEL EI DRYLLIO GAN GRIST.

PREGETH

A DRADDODWYD GER BRON

Y GYMDEITHAS GENHADOL,

Yn Nghapel Surry, yn Llundain,

MAI 14, 1806,

Gan y Diweddar Garch. T. Charles, A. B. o'r Bala.

A GYFIEITHIWDYD O'R SAESONEG

GAN GRIFFITH SOLOMON, LLANBEROG,

SWYDD GAERNARFON.

phligion o dair o Bregethan y Parch. EBENEZER MORRIS, ag ychydig Sylwadau ar Fydd: at yr hyn y chwaneogwyd Bigion o ddwy o Bregethan y Parchedig ROBERT ROBERTS, o Glynog, Swydd Gaernarfon.

Yr Ail Argraffiad.

PWLLHELI:

ARGRAFFWYD GAN ROBERT JONES.

(Pris chwe' cheiniog.)

Wynneb-ddalen y llyfr cyntaf i'w argraffu ym Mhwllheli,
gan Robert Jones yn 1828.